**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**ADRODDIAD AR GYFER PANEL GWEITHREDOL YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB**

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD:** | 13eg Mawrth 2006 |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PETER SLEE,**<br>**PRIF SWYDDOG CYNORTHWYOL (GWASANAETHAU CORFFORAETHOL)** |
| **DIBEN YR ADRODDIAD:** | Rhoi'r diweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd wrth ateb yr arbedion effeithlonrwydd yng nghyllideb cyflogau'r diffoddwyr tân rhan amser. |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Yng nghyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 25ain Gorffennaf 2005, cytunodd yr aelodau y gellid cael yr arbedion effeithlonrwydd o £294,123 yng nghyllideb cyflogau'r diffoddwyr tân rhan amser, a chymeradwywyd y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer cyflogau'r diffoddwyr tân rhan amser ar gyfer 2005/2006 o £4,450,143.

1.2 Gofynnodd yr aelodau hefyd am i'r diweddaraf am y cynnydd a wnaed wrth geisio'r arbedion hynny gael ei adrodd i gyfarfodydd y Panel Gweithredol.

2. **Y CYNNYDD**

2.1 Mae Atodiad A i'r adroddiad hwn yn dangos y gyllideb ddiwygiedig a gymeradwywyd; yr alldro amcanol a'r balans a ragwelir ar 31ain Mawrth 2006.

2.2 Gall yr aelodau weld yn Atodiad A fod y Gwasanaeth ar y targed i gael yr arbedion effeithlonrwydd o £294,123.

2.3 Yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ar 19eg Rhagfyr 2005, cytunwyd fod £150,000 o unrhyw danwariant yn 2005/06 i'w roi tuag at gyllideb 2006/07.

3. **ARGYMHELLIAD**

3.1 Bod yr aelodau'n nodi'r adroddiad.